## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **18 Rhagfyr 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | Adborth yn dilyn yr ymweliad â Chanolfan Bwyd Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth yn dilyn yr ymweliad â Chanolfan Bwyd Cymru ar 14 Tachwedd 2023** |
| **Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | |

**CEFNDIR:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 23 Hydref 2023, ystyriwyd adroddiad ynglŷn â Chanolfan Bwyd Cymru. Adeiladwyd Canolfan Bwyd Cymru gan Gyngor Sir Ceredigion yn Horeb, Llandysul, ac fe'i hagorwyd ym 1996, i ddarparu cymorth technegol i'r diwydiant bwyd yng Ngheredigion yn ogystal â chanolbarth a de-orllewin Cymru. Mae'r Ganolfan yn hygyrch i gymunedau gwledig ac amaethyddol yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac un o'i amcanion allweddol yw cefnogi busnesau amaeth sydd am arallgyfeirio er mwyn ychwanegu gwerth at eu cynnyrch craidd. Mae Canolfan Bwyd Cymru yn darparu gwasanaethau technegol i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd cenedlaethol.

Mae Canolfan Bwyd Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda dwy ganolfan dechnoleg fwyd arall yng Nghymru, sydd wedi'u lleoli yn Llangefni ac yng Nghaerdydd, i ddarparu cefnogaeth i'r diwydiant bwyd ledled Cymru. Rhoddwyd trosolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan gynnwys gwybodaeth helaeth am brosiect Helix a'r effaith ar yr economi. Ers 2016, roedd tîm Canolfan Bwyd Cymru wedi sicrhau canlyniadau da drwy brosiect HELIX yn unol â'r targedau a osodwyd. Dywedwyd nad oedd y tabl yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r holl gymorth a ddarparwyd am mai dim ond yr ymyriadau cyntaf a ddarperid i'r busnesau oedd modd eu cynnwys, er bod nifer yn dychwelyd sawl gwaith y flwyddyn.

O ran y dyfodol, prynodd Cyngor Sir Ceredigion 5 erw arall o dir ger yr ystâd bresennol yn Horeb yn 2019 i hwyluso'r cynlluniau twf. Ar hyn o bryd, mae dau brosiect yn cael eu datblygu a'u hasesu i'w cynnwys yn rhaglen y Fargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru:

I. Sefydlu Canolfan Arloesi Cynhyrchu Bwyd, a fyddai'n cynnwys cyfleusterau ar raddfa

ddiwydiannol gyda'r nod o alluogi twf mwy o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd canolig eu maint yng nghanolbarth Cymru.

II. Darparu cyfleusterau mwy o faint ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu bwyd, gan adeiladu ar yr unedau hybu presennol yng Nghanolfan Bwyd Cymru.

Byddai'r datblygiadau hyn yn gwella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y sector bwyd-amaeth yng Ngheredigion, sy'n allweddol o ran lles economaidd, a byddant yn helpu i ddiogelu dyfodol y Ganolfan a'i berthnasedd a hyfywedd hirdymor. Hefyd, roedd yna ddatblygiadau cyffrous gan brosiectau eraill ym Margen Dwf Tyfu Canolbarth Cymru sef ArloesiAber a Thir Glas, a fyddai'n cyd-fynd â gwaith Canolfan Bwyd Cymru. Roedd cyllideb graidd y Ganolfan wedi cael ei hymestyn am 2 flynedd ond nid oedd dim sicrwydd ar ôl hyn.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Ar 14 Tachwedd 2023, bu'r Pwyllgor ar ymweliad â'r safle i adolygu gwaith y safle a'r cynlluniau at y dyfodol. Rhoddodd yr Uwch Dechnolegydd Bwyd gyflwyniad i'r Aelodau ac ar ôl hynny, bu'r Aelodau o amgylch y safle.

Trafodwyd diben y Ganolfan Fwyd:

I fusnesau:

- Gweithredu fel galluogydd / cyfrwng i drosglwyddo gwybodaeth
- Datrys problemau
- Annog arloesedd

I'r diwydiant a'r economi:

- Hwyluso twf
- Helpu'r diwydiant i addasu

Mae gan Ganolfan Bwyd Cymru nifer o nodweddion unigryw. Mae ganddi brofiad o'r diwydiant ac mae cyfleusterau gweithgynhyrchu masnachol ac unedau hybu ar y safle. Hefyd, mae'r Ganolfan yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o fewn y sector– gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd, Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yr Awdurdod Lleol, a BRI Campden.

Mae'r gwasanaethau technegol a ddarperir yn cynnwys:

- Systemau Rheoli Diogelwch Bwyd (Consortiwm Manwerthu Prydain, Cymeradwyaeth Cyflenwr Diogel a Lleol - SALSA)
- Datblygu cynnyrch / prosesau a gwaith dilysu
- Ail-fformiwleiddio cynnyrch ac ychwanegu gwerth
- Dylunio safleoedd ac olrhain cyfarpar
- Gofynion deddfwriaethol a'r canllawiau cysylltiedig

- Pecynnu, profion o ran oes silff, labelu, honiadau am faeth
- Archwiliadau o ffatrïoedd, archwilio mewnol
- Lleihau gwastraff, effeithlonrwydd o ran prosesau.

Darperir nifer o gyrsiau hyfforddi gan gynnwys Cyrsiau Achrededig o ran Diogelwch Bwyd a HACCP hyd at Lefel 4, Ymwybyddiaeth ynghylch Alergenau, Archwilio Mewnol, Dadansoddiad o Wraidd y Broblem, Cymorth Cyntaf, Gwneud Caws, Sgiliau Bwtsiera, Egwyddorion Halltu, Gwneud Hufen Ia, Gwneud Selsig a Charcuterie.  Hefyd, mae nifer o weithdai / gweminarau ar-lein ar gael.

Ceir llaethdy yn yr hwb gweithgynhyrchu ac arloesi gan gynnwys 3 ystafell brosesu, ystafell prosesu cynnyrch amrwd, 2 ystafell brosesu arall, ac ystafell becynnu eilaidd / trydyddol ac amrywiol fannau ar gyfer gwasanaethau a llefydd storio.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd denu technegwyr bwyd i'r sector gan fod yna brinder.  Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y daith werthfawr a gafwyd o amgylch y safle.



**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**
**Naddo**
**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cydweithio:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Cynnwys:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Atal:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Integreiddio:** | **Ddim yn berthnasol** |

**ARGYMHELLIAD:**

Nodi gwaith y Pwyllgor.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 1/12/23 |